

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Gareth R H Davies - The Dental
Surgery, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae
Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 18 Mehefin 2025
Dyddiad cyhoeddi: 18 Medi 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	16
4.	Y camau nesaf	19
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	20
	Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith.....	21
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	22

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Gareth R H Davies - The Dental Surgery, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 18 Mehefin 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac un adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 24 o holiaduron gan gleifion a chwblhawyd dau gan aelodau o'r staff. Nid atebodd rhai o'r ymatebwyr rai o'r cwestiynau, gan olygu nad oedd ymatebion ar gyfer pob cwestiwn. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y staff yn neintyddfa Gareth R H Davies yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w cleifion. Dangosodd y staff barch tuag at urddas y cleifion, gan gynnwys rhoi mesurau ar waith i sicrhau preifatrwydd y cleifion yn ystod ymgynghoriadau. Ar y cyfan, roedd gofal yn cael ei ddarparu mewn modd amserol, roedd opsiynau i drefnu apwyntiad hyblyg ac roedd achosion o oedi yn cael eu cyfathrebu'n effeithiol.

Roedd y practis yn hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant, a gwelsom dystiolaeth bod gwybodaeth glir ar gael i'r cleifion yn Gymraeg ac yn Saesneg. Nodwyd y gellid gwella argaeledd gwybodaeth ac egluro'r canllawiau y tu allan i oriau ymhellach er mwyn gwella profiad y claf.

Cyflwynwyd adborth cadarnhaol gan gleifion yn holiaduron AGIC am y gofal a'r gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth yn 'dda iawn'.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gymryd camau i ddiweddarau'r daflen wybodaeth i gleifion er mwyn sicrhau ei bod yn adlewyrchu'r problemau o ran hygyrchedd yn nholedau'r cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom fod amrywiaeth o wybodaeth hybu iechyd ar gael i gleifion
- Roedd y systemau rheoli apwyntiadau a brysennu apwyntiadau brys.
- Roedd yr holl adborth gan gleifion yn gadarnhaol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y practis yn rhoi gofal diogel ac effeithiol mewn amgylchedd glân a threfnus a oedd yn cynnwys cyfarpar clinigol priodol. Roedd hefyd yn dilyn arferion da wrth gadw cofnodion a darparu gofal cydweithredol.

Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau i'r ddogfennaeth glinigol, gan gynnwys yr asesiadau risg a'r taflenni cydsynio. Roedd gweithdrefnau diogelu ar waith, ac roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol, ond dylai'r arweinydd diogelu gwblhau'r hyfforddiant Lefel 3.

Cwblhaodd y staff hyfforddiant arbenigol ar ymdrin â silindrau ocsigen yn ddiogel yn ystod yr arolygiad, gan wella diogelwch wrth ddefnyddio nwy meddygol. Mae angen gwneud gwelliannau i'r broses storio gwastraff clinigol, mesurau diogelu rhag ymbelydredd, y defnydd o safonau archwilio priodol, a dogfennaeth gan gynnwys asesiadau risg a ffurflenni cydsynio.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen gosod cyfanelwr petryal ar yr uned pelydr-X
- Mae angen i'r arweinydd diogelu gwblhau hyfforddiant lefel 3 ar gyfer oedolion a phlant
- Rhaid symud yr holl eitemau anghlinigol o'r ardal storio gwastraff clinigol, gan adael gwastraff clinigol a chyfarpar glanhau yn unig yno.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Mae'r practis yn elwa ar arweinyddiaeth glir, diwylliant tîm cadarnhaol, ac ymrwymiad i wella'n barhaus. Caiff y staff eu cefnogi drwy gyfarfodydd rheolaidd, prosesau monitro Datblygiad Proffesiynol Parhaus, a'r defnydd o adnoddau fel y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth.

Mae'r systemau sydd ar waith er mwyn i'r cleifion roi adborth yn effeithiol, ac mae'r prosesau llywodraethu yn gymesur â maint y practis. Fodd bynnag, mae angen rhoi sylw i feysydd llywodraethu allweddol, gan gynnwys yr angen i lunio polisi Chwythu'r Chwiban a pholisi Dyletswydd Gonestrwydd. Byddai atgyfnerthu prosesau archwilio a systemau digidol hefyd yn helpu i reoli'r practis yn effeithiol.

Yn gyffredinol, mae diwylliant cadarnhaol a ffocws clir ar wella yn y practis, ond mae angen ffurfioli rhai meysydd i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus a diogelwch.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r rheolwr cofrestredig lunio drafft o ddogfennau allweddol fel polisi chwythu'r chwiban a pholisi dyletswydd gonestrwydd
- Gallai'r practis deintyddol newid ei system bresennol ar gyfer storio ffeiliau papur i system storio gwrthsefyll tân er mwyn diogelu cofnodion cleifion ymhellach.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant perthnasol i'w rolau ac yn bodloni'r gofynion o ran eu Datblygiad Proffesiynol Parhaus
- Roedd y system ar gyfer casglu ac adolygu adborth gan gleifion yn addas.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Roedd yr ymatebion a gafwyd i holiadur AGIC yn gadarnhaol ar y cyfan. Nododd pob un o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn 'dda iawn'. Mae rhai o'r sylwadau a gafwyd am y gwasanaeth wedi'u nodi isod:

“Rwyf bob amser wedi cael triniaeth broffesiynol iawn yma ac rwy'n fodlon iawn ar bob agwedd.”

“Rwyf wedi bod gyda'r practis hwn ers 29 mlynedd. Rwyf wedi cael y gofal a'r sylw gorau posibl ar hyd y blynyddoedd. Y practis hwn yw'r practis gorau yn fy marn i.”

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd

Dangosodd y practis ymrwymiad clir i hybu iechyd y geg da a sicrhau bod y cleifion yn cael y wybodaeth berthnasol. Roedd deunyddiau hybu iechyd y geg yn cael eu harddangos mewn ardaloedd amlwg ym mhob rhan o'r adeilad, gyda pheth gwybodaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, a oedd yn cefnogi hygyrchedd ymhlith nifer o gleifion amrywiol.

Roedd rhestrau prisiau ar gael yn yr ardal aros, a oedd yn galluogi'r cleifion i ddeall y costau a oedd yn gysylltiedig â thriniaethau a gwasanaethau'n hawdd. Roedd enwau aelodau'r tîm deintyddol, a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, wedi'u harddangos hefyd.

Gwelsom arwyddion 'Dim Smygu' yn y practis, a oedd yn dangos cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth ynglŷn â mangreoedd di-fwg ac yn hybu amgylchedd iach.

At hynny, roedd copïau o'r daflen wybodaeth i gleifion ar gael yn yr ardal aros, a oedd yn darparu manylion hanfodol am y practis a'i wasanaethau. Roedd y datganiad o ddiben ar gael ar gais, a oedd yn sicrhau y gallai'r cleifion gael gafael ar wybodaeth bellach am nodau ac amcanion y gwasanaeth pan fo angen.

Gofal urddasol a pharchus

Roedd cytundeb cyfrinachedd ar waith yn y practis a oedd wedi cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n ddiweddar i gynnwys dyddiad adolygu ffurfiol. Yn ystod yr arolygiad, llofnododd yr holl staff y cytundeb diwygiedig i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall eu cyfrifoldebau o ran diogelu gwybodaeth am gleifion.

Mewn amgylchiadau lle mae pobl eraill yn yr ardal aros, caiff y cleifion gynnig defnyddio'r ddeintyddfa i sicrhau bod sgysiau ac ymgynghoriadau yn cael eu cynnal yn breifat.

Roedd naw egwyddor ymarfer moesegol craidd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) i'w gweld yn yr ardal aros.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael a risgiau a manteision yr opsiynau hynny. Dywedodd pob un o'r cleifion wrthym eu bod wedi cymryd cymaint o ran ag yr hoffent mewn penderfyniadau ynghylch eu triniaeth.

Nododd pob un o'r cleifion eu bod wedi cael gwybodaeth am sut y byddai'r lleoliad yn datrys unrhyw bryderon ar ôl triniaeth. Roedd pob un o'r cleifion hefyd yn cytuno eu bod wedi cael canllawiau addas ar yr hyn y dylid ei wneud yn achos haint neu argyfwng.

Amserol

Gofal amserol

Roedd y cleifion yn gallu trefnu apwyntiadau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb yn dilyn eu hapwyntiad. Dywedodd y staff fod amserlenni apwyntiadau yn cael eu cynnal yn dda ar y cyfan, ac nad oedd llawer o oedi.

Mewn achosion lle roedd apwyntiadau'n mynd dros yr amser a neilltuwyd ar eu cyfer, roedd y staff nyrsio yn hysbysu'r cleifion am yr oedi yn brydlon. Wrth gyrraedd, roedd y staff yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cleifion a, lle y bo angen, yn cynnig apwyntiadau amgen.

Ar gyfer gofal brys, roedd y practis yn cadw dau slot hanner awr ar gyfer achosion brys bob diwrnod. Roedd y rhain yn cael eu hasesu a'u trefnu o fewn 24 awr fel arfer. Roedd y practis hefyd yn defnyddio WhatsApp ar ffôn symudol dynodedig i dderbyn lluniau clinigol a oedd yn sicrhau y gellir rhannu ffeiliau yn ddiogel ac mewn modd wedi'i amgryptio. Roedd ffeiliau yn cael eu dileu ar ôl eu defnyddio neu eu storio'n ddiogel ar yriant wedi'i amgryptio.

Er mwyn darparu ar gyfer plant a gweithwyr shifftiau, roedd y practis yn cynnig apwyntiadau ar ôl ysgol ac yn anfon nodyn atgoffa i'w hannog i drefnu apwyntiad ar amseroedd cyfleus.

Roedd yr oriau agor a'r rhif ffôn i'w ddefnyddio mewn argyfwng y tu allan i oriau wedi'u harddangos yn glir ac i'w gweld o'r tu allan i'r adeilad. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur (20 allan o 24) y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Fodd bynnag, dywedodd nifer fach nad oeddent yn gwybod. Efallai yr hoffai'r gwasanaeth ystyried sut y gallai'r wybodaeth a ddarperir fod yn gliriach i sicrhau bod pob claf yn cael y wybodaeth yn llawn.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Dangosodd y practis ei fod yn gwneud ymdrech i gefnogi prosesau cyfathrebu a mynediad at wybodaeth deg. Roedd posteri, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â Llais, cwynion gan gleifion, a'r fenter 'Gweithio i Wella', yn cael eu harddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn hyrwyddo cynwysoldeb a chydymffurfiaeth â'r safonau iaith.

Er bod pob un o gleifion presennol y practis wedi nodi Saesneg fel eu dewis iaith, mae'r deunyddiau dwyieithog yn adlewyrchu dull rhagweithiol o ddiwallu anghenion cleifion amrywiol posibl.

Roedd sbectolau darllen ar gael yn y dderbynfa i helpu'r bobl ag amhariadau ar eu golwg. Nodwyd y gallai defnyddio print bras ar y posteri wella hygyrchedd i unigolion ag anawsterau golwg ymhellach.

Hawliau a chydaddoldeb

Dangosodd y practis ymrwymiad clir i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Roedd polisi bwlio ac aflonyddu ar waith a oedd yn dangos bod y practis yn rhoi sylw parhaus i gynnal amgylchedd gwaith parchus a chefnogol.

Roedd amrywiaeth o adnoddau hyfforddiant ar gael i'r staff gyda'r bwriad o feithrin gofal iechyd cynhwysol, gan gynnwys deunyddiau ar ddarparu gofal ar gyfer unigolion LHDT+, cefnogi cydweithwyr â dyslecsia, deall y menopôs yn y gweithle, a hyfforddiant ar ADHD a niwroamrywiaeth cysylltiedig.

Roedd y practis hefyd wedi cymryd camau i sicrhau hygyrchedd a chynhwysiant ffisegol i'r cleifion. Roedd ramp ar gyfer cadair olwyn a gris cludadwy ar gael i gefnogi'r cleifion ag anghenion symudedd, yn ogystal â thoiled neillryw a oedd yn

cynnig cyfleuster mwy cynhwysol ar gyfer yr holl gleifion, gan gynnwys y rhai sy'n nodi eu bod yn drawsryweddol. Fodd bynnag, nid oedd y toiled yn addas i gadeiriau olwyn, a all gyfyngu ar ei addasrwydd i'r cleifion ag amhariadau symudedd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r daflen wybodaeth i gleifion er mwyn sicrhau ei bod yn adlewyrchu'r problemau o ran hygyrchedd y toiledau'r cleifion.

At hynny, roedd dull a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn ar waith yn y practis gan fod y staff yn cadarnhau â'r gofalmwr p'un a oedd y cleifion yn gallu mynd i'w hapwyntiadau o hyd, yn enwedig y rhai hynny mewn cartrefi gofal. Mae hyn yn adlewyrchu dull rhagweithiol a pharchus o barhad gofal ac annibyniaeth y cleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd yr ardaloedd i gleifion yn gyfforddus, yn daclus ac nid oedd unrhyw beryglon. Gwelsom fod trefniadau addas i'r staff newid eu dillad ac i storio eu heiddo personol.

Dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod y cyfleusterau a oedd ar gael iddynt yn briodol i gyflawni eu tasgau penodol. Dywedodd yr ymatebwyr hefyd fod yr amgylchedd yn briodol i sicrhau bod cleifion yn cael y gofal sydd ei angen arnynt.

Roedd gan y practis bolisi lechyd a Diogelwch sylfaenol ar waith ar adeg yr arolygiad. Diweddarwyd poster yr Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch yn ystod yr ymweliad i gynnwys enw'r person cyfrifol.

Roedd tystiolaeth bod profion rheolaidd yn cael eu cynnal ar y cyfarpar canfod tân, a bod asesiad risg tân wedi cael ei gwblhau yn ddiweddar. Roedd yr holl ddyfeisiau diffodd tân wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd yr allanfeydd tân wedi'u nodi'n glir ac nid oedd unrhyw rwystrau yn arwain tuag atynt, a dengys y cofnodion fod ymarferion tân wedi cael eu cynnal. Fodd bynnag, nid oedd yn glir a oedd contract cynnal a chadw cyfarpar diogelwch tân ar waith.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gadarnhau bod contract cynnal a chadw cyfarpar diogelwch tân ar waith.

Roedd y swyddog tân dynodedig yn meddu ar dystysgrif ddilys. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd tri aelod o'r staff wedi cwblhau eu hyfforddiant diogelwch tân blynyddol. Trafodwyd hyn â rheolwr y practis a gadarnhaodd bod trefniadau wedi cael eu gwneud i'r staff gwblhau'r hyfforddiant hwn yn ystod y cyfarfod staff nesaf.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diogelwch tân.

Yn ystod yr arolygiad, nodwyd bod yr ystafell storio gwastraff clinigol yn anniben. Roedd bagiau o wastraff clinigol a oedd yn aros i gael eu casglu yn cael eu storio ochr yn ochr ag eitemau anghlinigol amrywiol, gan gynnwys bocsys cardfwrdd, darnau o bren, cadair, sugnwr llwch, hen eitemau eraill a bwced a mop. Gall yr eitemau o ddefnydd cymysg a gaiff eu storio yn yr ardal hon amharu ar fesurau atal a rheoli heintiau effeithiol ac maent yn peri risg bosibl o ran iechedd a diogelwch.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau na chaiff eitemau anghlinigol ac annibendod cyffredinol eu cadw yn yr ystafell storio gwastraff clinigol.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod y ddeintyddfa yn lân yr olwg a'i bod wedi'i dodrefnu mewn ffordd a oedd yn golygu y gellid ei glanhau'n effeithiol. Roedd cyfleusterau hylendid dwylo addas ar gael yn y ddeintyddfa ac yn y toiled.

Nodwyd nad yw'r gwasanaeth yn defnyddio canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) ar hyn o bryd at ddibenion archwilio. Roedd un o'r archwiliadau a welsom yn seiliedig ar y safonau Memorandwm Technegol Iechyd (HTM) yn hytrach na WHTM, nad yw o bosibl yn cyd-fynd yn llawn â'r gofynion cenedlaethol yng Nghymru.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y prosesau archwilio yn cyd-fynd â'r canllawiau cenedlaethol drwy fabwysiadu safonau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM).

Yn ystod ein harolygiad, ni chawsom sicrwydd ynglŷn â statws imiwnedd y staff clinigol yn erbyn Hepatitis B. Nid oedd cofnod ar waith i ddangos bod y staff clinigol wedi cael eu brechiadau Hepatitis B a bod ganddynt ymateb imiwnedd.

Rhaid i'r practis sicrhau bod cofrestr hepatitis B yn cael ei chadw'n gyfredol i adlewyrchu statws pob aelod perthnasol o staff.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod y trefniadau sydd ar waith i reoli meddyginiaethau yn briodol. Roedd polisi addas ar waith ar gyfer trin, storio, defnyddio a gwaredu meddyginiaethau yn ddiogel.

Dywedwyd wrthym fod y nyrsys deintyddol yn gofyn i'r cleifion am unrhyw newidiadau i'w hanes meddygol fel mater o drefn ger y dderbynfa wrth iddynt gyrraedd. Efallai yr hoffai'r practis ystyried arddangos poster yn annog y cleifion i hysbysu'r tîm am unrhyw newidiadau i'w hanes meddygol hefyd.

Yn ystod yr arolygiad, nodwyd gennym fod y practis yn defnyddio silindrau nwy meddygol integredig BOC. Ar yr adeg honno, nid oedd y staff wedi cael hyfforddiant ar drin a defnyddio'r cyfarpar hwn yn ddiogel.

Ymdriniwyd â'n pryder mewn perthynas â hyn yn ystod yr arolygiad. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad A](#).

Diogelu plant ac oedolion

Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion a oedd yn agored i niwed neu sy'n wynebu risg. Roedd y polisïau yn cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol, ynghyd â siartiau llif manwl a oedd yn hysbysu'r staff am y camau gweithredu i'w cymryd pe bai mater diogelu yn codi. At hynny, mae gan bob aelod o'r staff ap diogelu ar eu dyfeisiau symudol, lle y gallant gael gafeal ar ganllawiau perthnasol a gwybodaeth gyswllt ar unwaith.

Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diogelu gofynnol. Fodd bynnag, nid oedd yr arweinydd diogelu dynodedig wedi cwblhau'r lefel ofynnol o hyfforddiant ar gyfer ei gyfrifoldebau penodol hyd yma.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr arweinydd diogelu yn cwblhau hyfforddiant diogelu Lefel 3.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Edrychwyd ar y cyfleusterau clinigol a gwelsom eu bod yn cynnwys y cyfarpar perthnasol. Roedd y ddeintyddfa yn drefnus, yn lân ac yn daclus. Gwelsom fod y dyfeisiau meddygol a'r cyfarpar clinigol yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn addas at y diben.

Roedd dogfennaeth ar gael i ddangos bod trefniadau ar waith i ddefnyddio'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel a bod dyddiadau cynnal a chadw a phrofi'r cyfarpar yn gyfredol. Gwelsom fod arwyddion pelydr-X priodol wedi'u gosod ar ddrws y ddeintyddfa a bod asesiad risg ymbelydredd cyfredol ar waith. Fodd bynnag, nid oedd cyfanelwr petryal wedi cael ei osod ar y cyfarpar pelydr-X. Argymhellir bod un o'r rhain yn cael ei osod i gefnogi arferion gorau o ran diogelu rhag ymbelydredd ac i leihau cysylltiad cleifion ag ymbelydredd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu bod cyfanelwr petryal yn cael ei osod ar y cyfarpar pelydr-X.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Gwelsom fod y staff yn asesu cleifion ac yn gwneud diagnosis o anghenion cleifion yn ddiogel. Roedd y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn dangos bod triniaethau yn cael eu darparu'n unol ag anghenion clinigol, ac yn unol â chanllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol.

Nododd y practis eu bod wedi meithrin cydberthnasau cydweithredol effeithiol â deintyddfeydd lleol eraill, sy'n ei helpu i ddarparu gofal cleifion cydgysylltiedig o ansawdd uchel.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion naw claf a gwelsom fod yr holl gofnodion yn cael eu cadw yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ac yn cael eu goruchwyllo drwy ddilyn polisi rheoli cofnodion addas. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion naw claf, a gadarnhaodd fod gwybodaeth adnabod a hanes meddygol priodol yn cael eu cofnodi. Er bod y nodiadau clinigol yn cynnwys archwiliadau o feinweoedd meddal ac archwiliadau y tu mewn i'r geg a'r tu allan i'r geg, yn ogystal â sgrinio canser y geg, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod asesiadau risg ar gyfer pydredd dannedd, haint periodontol, traul dannedd neu ganser y geg yn cael eu cofnodi. At hynny, nid oedd y ddogfennaeth i ddangos cydsyniad ar sail gwybodaeth ar gael yn y cofnodion a welsom.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'n canfyddiadau mewn perthynas â chyflawnder cofnodion y cleifion.

Effeithlon

Effeithlon

Mae'r practis yn gweithredu fel gwasanaeth cymysg, sy'n darparu gofal i blant fel rhan o'r GIG a gofal practis i oedolion. Caiff atgyfeiriadau at wasanaethau eraill eu rheoli'n effeithlon drwy system atgyfeirio gyfrifiadurol, sy'n sicrhau gofal cleifion amserol a chydlynol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd strwythurau rheoli clir ar waith yn y practis, gyda'r prif ddeintydd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd. Gwelsom fod ymrwymiad clir i ddarparu gwasanaeth o safon uchel a dull cadarnhaol o wneud gwelliannau. Gwelsom fod amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau ar waith a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Nid yw'r practis yn cynnal cofrestr ganolog o bolisiau ar hyn o bryd. Yn ystod yr arolygiad, cynghorwyd y practis i ystyried cynnal cofrestr ganolog o'r polisiau a'r gweithdrefnau. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod yr holl bolisiau gofynnol yn gyfredol, yn hygyrch ac ar gael i'w harolygu, yn ogystal â helpu i sicrhau y gellir rheoli fersiynau a'u hadolygu'n rheolaidd yn unol â'r disgwyliadau rheoleiddiol.

Mae'r practis yn dangos dull cymesur ac ymarferol o lywodraethu, sy'n briodol ar gyfer maint y tîm. Bwriedir i gyfarfodydd tîm gael eu cynnal bob pedair i chwe wythnos, a bod adborth anffurfiol a gwybodaeth yn cael eu rhannu'n barhaus. Roedd tystiolaeth o gyfarfodydd ar gael, ac mae trafodaethau'n dilyn fformat cyson ar y cyfan, gan gynnwys presenoldeb, amserlennu apwyntiadau 30 a 45 munud sydd ar ddod, adolygu perfformiad Unedau Gweithgarwch Deintyddol, ac ystyried awgrymiadau a gyflwynwyd drwy'r blwch adborth yn y practis.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Mae'r practis yn dangos dull rhagweithiol o ddatblygu staff a sicrhau cydymffurfiaeth reoleiddiol. Mae'r practis yn defnyddio'r adnodd Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth i helpu i ddatblygu'r gweithlu a nodi anghenion hyfforddiant. Defnyddir cyfarfodydd staff i fonitro a mynd i'r afael â gofynion hyfforddiant fel mater o drefn, a chaiff Datblygiad Proffesiynol Parhaus ei adolygu ym mhob cyfarfod i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus. Caiff gwiriadau blynyddol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd eu cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff, sy'n cyfrannu at amgylchedd gwaith diogel ac atebol. Fodd bynnag, nid oes gan y practis bolisi chwythu'r chwiban ar waith ar hyn o bryd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig lunio polisi chwythu'r chwiban i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau priodol er mwyn codi pryderon yn gyfrinachol ac yn ddiogel.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Mae'r practis yn annog y cleifion i roi adborth drwy gyfathrebu'n uniongyrchol â'r staff neu drwy flwch awgrymiadau. Caiff yr adborth hwn ei adolygu cyn y cyfarfodydd staff er mwyn llywio gwelliannau i'r gwasanaeth. Dywedodd y staff wrthym fod cynlluniau ar waith i ailgyflwyno hysbysfwrdd er mwyn arddangos sut mae'r practis yn ymateb i adborth gan gleifion, er mwyn hyrwyddo tryloywder ac ymgysylltiad ymhellach. Gwelwyd bod poster Llais yn cael ei arddangos, a oedd yn cyfeirio cleifion at y llais cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Fodd bynnag, nid oes gan y practis bolisi Dyletswydd Gonestrwydd ar waith ar hyn o bryd ac nid yw'n darparu hyfforddiant cysylltiedig.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig lunio polisi Dyletswydd Gonestrwydd a gwneud yn siŵr bod y staff yn cael hyfforddiant perthnasol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion statudol ac i gefnogi diwylliant agored a diwylliant o ddysgu.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd gan y practis systemau ar waith i gefnogi'r broses o drin gwybodaeth am gleifion yn ddiogel. Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i nyrsys deintyddol drawsgrifio gwybodaeth i gwblhau atgyfeiriadau electronig, a all gyflwyno risg o gamgymeriadau wrth drawsgrifio.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r broses atgyfeirio er mwyn nodi cyfleoedd i symleiddio a lleihau'r angen i berson fewnosod y wybodaeth.

Roedd y polisiâu a'r gweithdrefnau yn cael eu storio a'u cynnal yn electronig, ac roedd copïau papur hefyd ar gael. Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cynnal a'u cadw ar ffurf papur a'u storio mewn ystafell dan glo. Fodd bynnag, gwnaethom nodi fod yr ardal storio yn cynnwys uned bren â drws sy'n llithro nad oedd yn gwrthsefyll tân. Mae hyn yn peri risg bosibl i ddiogelwch gwybodaeth am gleifion a'r broses o gadw'r wybodaeth honno mewn achos o dân. Efallai yr hoffai'r gwasanaeth ystyried defnyddio storfa sy'n gwrthsefyll tân er mwyn sicrhau y gellir diogelu gwybodaeth sensitif yn unol â diogelwch data a'r safonau cyfrinachedd.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Ar adeg yr arolygiad, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod archwiliadau wedi cael eu cwblhau o'r trefniadau rheoli gwastraff gofal iechyd, iechyd a diogelwch, mynediad i bobl anabl, na'r broses integredig o roi'r gorau i smygu. Mae'r archwiliadau hyn yn hanfodol i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau rheoleiddiol a hyrwyddo gwelliant parhaus o ran gofal a diogelwch cleifion.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi amserlen ar waith er mwyn cynnal gweithgareddau archwilio clinigol i gefnogi dull strwythuredig a pharhaus o sicrhau ansawdd.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Gan fod y practis deintyddol sengl yn gweithredu heb system glinigol gyfrifiadurol llawn, caiff systemau digidol ehangach eu rheoli â llaw. Mae'r nyrsys deintyddol yn cefnogi'r broses hon drwy fewnosod a throsglwyddo gwybodaeth angenrheidiol i wasanaethau allanol. Er bod y dull hwn yn briodol ar gyfer cwmpas presennol y practis, gallai cyflwyno datrysiadau digidol yn rhannol wella effeithlonrwydd a'r broses integreiddio â systemau gofal iechyd ehangach dros amser.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelsom nad oedd y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol ar Silindrau Falf Ocsigen Cyfannol (BOC).	Gallai hyn beri risg i'r cleifion pe bai achos o argyfwng meddygol.	Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith â'r staff yn ystod yr arolygiad.	Cwblhawyd yr hyfforddiant yn ystod yr arolygiad a rhoddwyd tystiolaeth i ni.
Nid oedd enw'r swyddog cyfrifol wedi'i gynnwys ar y poster lechyd a Diogelwch.	Gallai oedi wrth roi gwybod am beryglon godi gan nad yw enw'r swyddog cyfrifol wedi'i gynnwys.	Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith â'r staff yn ystod yr arolygiad.	Ychwanegwyd enw'r swyddog cyfrifol at y poster yn ystod yr arolygiad.
Gwelsom nad oedd tri aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelwch tân blyneddol.	Gallai'r cleifion wynebu risg pe bai argyfwng.	Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith â'r staff yn ystod yr arolygiad.	Cadarnhaodd rheolwr y practis bod trefniadau wedi cael eu gwneud i'r staff gwblhau'r hyfforddiant yn ystod y cyfarfod staff nesaf.

Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Gareth R H Davies - The Dental Surgery

Dyddiad yr arolygiad: 18 Mehefin 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Gareth R H Davies - The Dental Surgery

Dyddiad yr arolygiad: 18 Mehefin 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Nid oedd y toiled yn hygyrch i bobl a oedd yn defnyddio cadair olwyn.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r daflen wybodaeth i gleifion er mwyn sicrhau ei bod yn adlewyrchu'r problemau o ran hygyrchedd y toiledau'r cleifion.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 6(1)	Diweddarau'r ddwy daflen wybodaeth i gleifion	GRHD 30/9/25
2.	Nid oedd yn glir a oedd contract cynnal a chadw cyfarpar diogelwch tân ar waith, a gwelsom nad oedd tri aelod o'r staff wedi cwblhau eu hyfforddiant diogelwch tân blynyddol.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol: Cyflwyno tystiolaeth i ddangos bod contract cynnal a chadw cyfarpar diogelwch tân ar waith	Rheoliad 22(4)(a) a Rheoliad 22(4)(c)	Gofyn i Chubb (y cwmni sy'n gwasanaethu'r adeilad bob blwyddyn) am gadarnhad bod trefniant ar waith ar gyfer yr ymweliad blynyddol hwn.	GRHD 30/9/25

		Sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân.		Roedd yr hyfforddiant diogelwch tân blynyddol wedi cael ei gwblhau ar 13/5/25.	Wedi'i gwblhau	
3.	Roedd bagiau o wastraff clinigol a oedd yn aros i gael eu casglu yn cael eu storio ochr yn ochr ag eitemau anghlinigol amrywiol, gan gynnwys bocsys cardfwrdd, cadeiriau, sugnwr llwch, hen eitemau eraill a bwced a mop.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau na chaiff eitemau anghlinigol ac annibendod cyffredinol eu cadw yn yr ystafell storio gwastraff clinigol.	Rheoliad 22 (2)(a) Fframwaith Ansawdd a Diogelwch y GIG	Symud y bagiau gwastraff clinigol i'r Ystafell Storio y gellir ei chloi. Trefnu'r silff uwchben i storio gwastraff clinigol a gwastraff masnachol newydd.	GRHD	31/10/25
4.	Nodwyd nad yw'r gwasanaeth yn defnyddio canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) ar hyn o bryd at ddibenion archwilio. Roedd un o'r archwiliadau a welsom yn seiliedig ar y safonau Memorandwm Technegol Iechyd (HTM) yn hytrach na WHTM.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff yr holl archwiliadau rheoli heintiau eu cynnal yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM).	Rheoliad 13(3)(b)	Bydd fy staff yn cwblhau'r archwiliad eto gan ddefnyddio'r fformat cywir pan fyddaf ar fy ngwyliau blynyddol.	Lisa a Liz	5/9/25

5.	Yn ystod ein harolygiad, ni chawsom sicrwydd ynglŷn â statws imiwnedd y staff clinigol yn erbyn Hepatitis B. Nid oedd cofnod ar waith i ddangos bod y staff clinigol wedi cael eu brechiadau Hepatitis B a bod ganddynt ymateb imiwnedd.	Rhaid i'r practis sicrhau bod cofrestr hepatitis B yn cael ei chadw'n gyfredol i adlewyrchu statws pob aelod perthnasol o staff.	Rheoliad 13 (6)(c)(ii)	Rydym wedi trefnu i'r nyrsys gael eu brechiad ar 12/8/25. Bydd Gareth yn parhau â'i gofrestriad ag lechyd Galwedigaethol, ond er mwyn blaenoriaethu'r gwiriad HBV, rwyf am drefnu prawf gan fy GMP.	GRHD	19/9/25
6.	Nid oedd yr arweinydd diogelu dynodedig wedi cwblhau'r lefel ofynnol o hyfforddiant ar gyfer ei gyfrifoldebau penodol.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr arweinydd diogelu yn cwblhau hyfforddiant diogelu Lefel 3.	Rheoliad 14(1)(b)	Rydym wedi nodi dau gwrs y gallaf eu cwblhau i ddiweddar fy hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion.	GRHD	30/9/25
7.	Nid oedd cyfanelwr petryal wedi cael ei osod ar y cyfarpar pelydr-X.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu bod cyfanelwr petryal yn cael ei osod ar y cyfarpar pelydr-X.	Rheoliad 13(2)(a)	Byddwn yn prynu cyfanelwr. Ni allwn ddod o hyd i un yn y catalogau ond gallaf deithio ar y tiwb i'r Arddangosfa Excel yn Llundain (3/10/25) a chael un yno.	GRHD	10/10/25

8.	Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion naw claf ac nid oedd unrhyw dystiolaeth bod asesiadau risg ar gyfer pydredd dannedd, haint periodontol, traul dannedd neu ganser y geg yn cael eu cofnodi. Nid oedd y ddogfennaeth i ddangos cydsyniad ar sail gwybodaeth ar gael yn y cofnodion a welsom.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'n canfyddiadau mewn perthynas â chyflawnder cofnodion y cleifion.	Rheoliad 20(1)(a) Rheoliad 13(1) Rheoliad 13(9)(d)	Rwyf bellach wedi cyflwyno asesiadau risg ffurfiol ar bydredd dannedd, haint periodontol, traul dannedd a chanser y geg i fy amserlen archwilio. Rwyf wedi diweddarau fy Mholisi Gwybodaeth Archwilio i adlewyrchu hyn. Byddaf yn cwblhau cwrs ar draul dannedd ar 31/10/25 i safoni fy asesiad. Rwyf yn gofyn am gydsyniad ar sail gwybodaeth gan y cleifion yn llwyddiannus, ond mae angen i mi wella'r broses o nodi hyn ar bapur ar gyfer yr eitemau nad ydynt yr un mor bwysig.	GRHD	Wedi'i gwblhau ond bydd angen ei fireinio cyn 7/11/25 o bosibl
----	--	---	--	---	------	--

9.	Nid oes gan y practis bolisi chwythu'r chwiban ar waith.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig lunio polisi chwythu'r chwiban.	Rheoliad 17(3)(e)	Llunio polisi Chwythu'r Chwiban	GRHD	30/9/25
10.	Nid oes gan y practis bolisi Dyletswydd Gonestrwydd ar waith.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig lunio polisi Dyletswydd Gonestrwydd.	Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 Rheoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023	Mae'r Polisi Dyletswydd Gonestrwydd wedi bod ar waith ers mis Ionawr 2023 ond nid oeddwn yn gallu dod o hyd iddo ar ddiwrnod yr arolygiad.	GRHD	Wedi'i gwblhau
11.	Mae'n ofynnol i nyrsys deintyddol drawsgrifio gwybodaeth i gwblhau atgyfeiriadau electronig.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r broses atgyfeirio er mwyn nodi cyfleoedd i symleiddio a lleihau'r angen i berson fewnosod y wybodaeth.	Rheoliad 16(1)(a) a Rheoliad 16(2)(d)(i)	Bydd manylion cyffredinol y llythyrau atgyfeirio bellach yn cael eu nodi gan aelod o fy staff bob amser cyn i mi ysgrifennu'r atgyfeiriad er mwyn sicrhau y caiff manylion y claf eu cadarnhau gan ddau berson.	GRHD	Wedi'i gwblhau

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Gareth R.H. Davies
Teitl swydd: Llawfeddyg Deintyddol
Dyddiad: 31 Gorffennaf 2025.